OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2662 (Cy.233)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) (Diwygio) 2004

Wedi'u gwneud - -	*12 Hydref 2004*
Yn dod i rym - -	*16 Hydref 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 16 Hydref 2004.

Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) 2000

2. Diwygir Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) 2000(**3**) fel a ganlyn.

(a) yn rheoliad 2(2) dileer y geiriau "IACS";

(b) yn rheoliad 3(1) —

(i) dileer y diffiniadau o "cynllun cymorth IACS" ac "atodiad ALlFf";

(ii) yn y diffiniad o "Rheoliad y Cyngor", ar ôl y gair "Ewropeaidd" mewnosoder y geiriau canlynol, ", fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) 41/2004"(**4**));

(**1**) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 1999 (1999/2788).
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2000/3294 (Cy.216), diwygiwyd gan O.S. 2001/3680 (Cy.301).
(**4**) O.J. Rhif L006, 10.01.2004, t.19.